**Adroddiad ar**

**St David's College**

**Dyddiad yr ymweliad â ffocws: Ionawr 2025**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â St David's College

| | |
|---|---|
| Enw’r darparwr | St David's College |
| Statws y perchennog | Elusen gofrestredig |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Arbennig annibynnol |
| Darpariaeth breswyl? | Oes |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 273 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 197 |
| Dyddiad ymweliad blaenorol Estyn (os yw’n berthnasol) | 01/11/2023 |
| Dyddiad dechrau’r arolygiad | 23/01/2025 |
| Math o ddigwyddiad | Cyhoeddedig |

Cyd-destun yr ysgol:

Mae St David’s College yn ysgol ddydd a phreswyl gyd-addysgol annibynnol sy’n addysgu disgyblion rhwng 9 ac 19 oed. Mae’r ysgol wedi’i lleoli ar dir helaeth, ychydig i’r de o Landudno yng Ngogledd Cymru.

Agorwyd yr ysgol ym 1965, fel elusen addysgol a sefydlwyd trwy weithred ymddiriedolaeth, i ddarparu addysg uwchradd o fewn fframwaith Cristnogol. Cenhadaeth yr ysgol yw ‘datblygu’r unigolyn cyfan trwy addysg eang sydd wedi’i seilio ar egwyddorion Cristnogol, dewis eang o ddiddordebau a gweithgareddau, a rhaglen bersonol gyflawnadwy ar gyfer pob disgybl.’

Mae 273 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd, y mae 92 ohonynt yn ddisgyblion preswyl. Mae tua dau o bob tri disgybl wedi cael diagnosis o ddyslecsia neu anhawster dysgu penodol arall. Mae gan ryw un o bob pump o ddisgyblion gynllun datblygu unigol (CDU) neu gynllun addysg, iechyd a gofal (CAIG).

Dechreuodd y pennaeth presennol yn ei swydd ym mis Hydref 2017.

Cynhaliwyd yr arolygiad diwethaf ym mis Tachwedd 2023.

Cynhaliwyd yr ymweliad hwn â ffocws ar y cyd ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), a fydd yn llunio adroddiad ar wahân.

## Prif ganfyddiadau

Mae staff yn rhoi blaenoriaeth i les disgyblion ar draws yr ysgol. Mewn cyfarfodydd staff rheolaidd, caiff gwybodaeth bwysig ei rhannu am les disgyblion, i alluogi staff i gefnogi disgyblion. Caiff pryderon ynghylch diogelu eu cofnodi'n gywir, ac mae staff sydd â chyfrifoldeb am y maes hwn o waith yr ysgol yn ymateb iddynt mewn modd amserol. Yn ychwanegol, caiff disgyblion eu haddysgu am sut i aros yn ddiogel mewn gwersi addysg fyd-eang a chymdeithasol o fewn y cwricwlwm.

Caiff systemau a phrosesau diogelu presennol eu hadolygu a'u cryfhau, lle mae angen. Mae angen diweddaru polisi amddiffyn a diogelu plant yr ysgol i sicrhau ei fod yn adlewyrchu arfer bresennol.

Mae staff sydd â chyfrifoldeb am ddiogelu wedi cael hyfforddiant addas, maent yn meddu ar ddealltwriaeth glir o'u rolau a'u cyfrifoldebau ac yn cael digon o amser i'w cyflawni. Mae'r swyddog bugeiliol a'r nyrs arweiniol yn cyfarfod bob wythnos i drafod materion lles a chytuno ar gamau gweithredu. Fodd bynnag, mae trefniadau ffurfiol i'r tîm diogelu cyfan gyfarfod a thrafod camau gweithredu ac adolygu cynnydd yn llai sefydledig. Mae hyn yn lleihau eu gallu fel tîm i gael goruchwyliaeth lawn o'r holl faterion lles neu ddiogelu. Mae cymorth a her reolaidd ar gyfer y deiliaid swydd hyn gan uwch arweinwyr yn gyfyngedig.

Mae gan yr ysgol raglen dreigl i ddarparu cyfleoedd i bob un o'r staff gael hyfforddiant diogelu priodol. Mae system a gyflwynwyd yn ddiweddar yn cofnodi hyfforddiant diogelu a gwblhawyd ar gyfer pob un o'r staff; y staff addysgu a'r staff nad ydynt yn addysgu, fel ei gilydd. Yn ychwanegol, mae cyflwyniadau gan ddarparwyr allanol yn datblygu dealltwriaeth staff ymhellach o sut i gadw dysgwyr yn ddiogel, er enghraifft ar destunau camddefnyddio cyffuriau a throseddau cyllyll. Darperir hyfforddiant buddiol i ddisgyblion hŷn i'w helpu i gynorthwyo'u cyfoedion iau yn effeithiol. Fodd bynnag, nid yw'r prosesau i werthuso effaith ystod yr hyfforddiant wedi'u sefydlu'n dda.

Mae'r cysylltiad rhwng yr ysgol a'r corff llywodraethol wedi cryfhau gyda llywodraethwr diogelu a benodwyd yn ddiweddar. Fodd bynnag, nid yw'r corff llywodraethol, gan gynnwys cadeirydd y llywodraethwyr, yn goruchwylio diogelu yn gadarn, ac felly ni allant gefnogi'r ysgol na dwyn y staff i gyfrif yn effeithiol. Nid yw'r wybodaeth mewn adroddiadau diogelu yn helpu llywodraethwyr i ddeall tueddiadau a materion allweddol sy'n effeithio ar les disgyblion. Mae hyn yn atal llywodraethwyr rhag bod yn rhagweithiol wrth iddynt herio ac ymateb i unrhyw faterion a godir.

Mae prosesau recriwtio diogel yn bodloni'r gofynion. Nodwyd ychydig o feysydd a fyddai'n elwa ar gael eu cryfhau ymhellach, ac mae'r ysgol yn gweithio i fynd i'r afael â'r rhain. At ei gilydd, mae'r ysgol yn datblygu diwylliant diogelu addas.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn â ffocws, mae'r ysgol yn bodloni Safon 3 Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024, sy'n cyfeirio at les, iechyd a diogelwch disgyblion, a Safon 4, yn gysylltiedig ag addasrwydd staff a'r perchennog.

Mae'n ofynnol i'r ysgol gwblhau cynllun gweithredu ôl-arolygiad i ddangos sut bydd yn mynd i'r afael â meysydd sydd angen eu cryfhau.

## Cydymffurfio â'r rheoliadau ar gyfer cofrestru

Caiff arolygiadau ysgolion annibynnol eu llywodraethu gan Ddeddf Addysg 2002 a rheoliadau cysylltiedig: Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024. Mae'r rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ysgol annibynnol fodloni safon briodol yn y meysydd canlynol:

### Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu'r safon hon.

### Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu'r safon hon.

### Lles, iechyd a diogelwch disgyblion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Addasrwydd perchnogion a staff

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu'r safon hon.

### Darparu gwybodaeth

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu'r safon hon.

### Y modd yr eir i'r afael â chwynion

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu'r safon hon.

## Argymhelliad ynghylch cofrestriad

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i ddangos nad yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad cyfyngedig hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr / perchnogion, arweinwyr ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â gwersi ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi dysgu'r disgyblion
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol (lle bo'n briodol), gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (http://www.estyn.llyw.cymru/)

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag adran 163 Deddf Addysg 2002. Prif ddiben arolygu o dan yr adran hon yw adrodd ar gydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024. Mewn ysgolion sy’n darparu addysg feithrin nas cynhelir, mae’r adroddiad hwn hefyd yn bodloni gofynion Atodlen 26 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â’r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae’r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: http://www.estyn.llyw.cymru/

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 04/03/2025